**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**07/11/2025**

0900 – 1400

Lleoliad: St Patricks House

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Peter Strachan, Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudry, Julian Edwards, Lorenzo Visentin.

**Hefyd yn bresennol**

Sam Hadley, Stephen Morgan

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda.

**2.Sylw i ddiogelwch**

Trafodwyd y dull presennol o reoli risg llystyfiant gan y Bwrdd, gan nodi'r ddibyniaeth bresennol ar adrodd â llaw a data heb ei ddefnyddio. Roedd y prif drafodaethau yn cynnwys defnyddio data fflyd CAF, edrych ar lidar a mapiau gwres i fonitro'n rhagweithiol, ac integreiddio blaenoriaethau masnachol, ecolegol a gweithredol. **[Cam Gweithredu: MD i ddod â data trenau i'r Bwrdd**

**Gweithrediadau, ymchwilio i atebion mapiau gwres, ac adrodd ar y cyfnod nesaf gyda dadansoddiad o risg llystyfiant.]**

**3. Sylw i gwsmeriaid**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am Gymorth i Deithwyr a Phrosiect Pluto, gan nodi bod perfformiad y system yn fwy amlwg a bod gwell perthynas â chwsmeriaid ar lefel gorsafoedd. Mae timau Avanti a TrC yn treialu Pluto fel ateb posibl, ac mae'r arwyddion cynnar yn addawol. [redacted]

**4.Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion 10/10/2025, yn amodol ar y newidiadau.

**5.Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

- Trafododd y Bwrdd berfformiad Llinellau Craidd y Cymoedd a'r Gororau, gan nodi y byddai Llinellau Craidd y Cymoedd yn arwain o ran perfformiad pe bai'n cael ei gadw ar wahân at ddibenion adrodd, gan nodi bod dwyn ceblau wedi effeithio ar y cyfraddau canslo teithiau. Trafododd y Bwrdd gyflymu amserlenni Llinellau Craidd y Cymoedd heb effeithio ar brydlondeb. Nododd y Bwrdd fod perfformiad heriol y Gororau a'r sgoriau sydd wedi deillio o hynny yn is na'r canlyniadau targed. **[Cam Gweithredu: NM/MD i edrych yn fanwl ar berfformiad Llinell y Gororau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd]**.
- Mae MD yn cwrdd â rheolwyr gwella perfformiad i sbarduno atebolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol gyda chamau gweithredu allweddol, sef lleihau amseroedd aros yn Heath High, mesur perfformiad o darddiad gwasanaethau, ac ailedrych ar wasanaethau aur a chardiau sgorio i atal gweithio mewn seilos. Nodwyd criwiau'n cyrraedd yn hwyr a defnyddio'r llinell yn ddiangen o araf fel problemau allweddol y gellid eu datrys. Trafododd y Bwrdd rymuso arweinwyr, wedi'i ategu gan ddadansoddiad data manwl a newid diwylliannol i sbarduno perfformiad.
- Yn sgil dau achos diweddar o Basio Signalau Stop (SPAD), tynnwyd sylw at ysgogiadau cynyddol System Amddiffyn a Rhybuddio'r Trenau (TPWS) yn erbyn signalau coch, gan nodi eu bod yn debyg i dueddiadau mewn cwmnïau trên eraill. Mae proses newydd bellach yn alinio TPWS â phrosesau rheoli SPAD, gan bwysleisio gwiriadau ffitrwydd gyrwyr, camu'n ôl o wasanaeth yn ddewisol heb ganlyniad, a mynd ar drywydd seibiannau yn hytrach na chamu'n ôl o wasanaeth yn awtomatig **[Cam Gweithredu: MD i drefnu archwiliad trylwyr**

**o brosesau rheoli gyrwyr a goruchwylwyr ar ôl cymhwyso, ac adolygu prosesau ysgogi TPWS a'u cysoni â SPADs].** Trafododd y Bwrdd a oes angen canllawiau llymach ar ysgogiadau TPWS gan gydbwyso diogelwch a'r effaith ar gwsmeriaid ar yr un pryd, a nodi'r dull gweithredu presennol – sef bod gyrwyr yn parhau ar ôl TPWS gyda goruchwyliaeth rheolwr ar-alwad. MD i uwchgyfeirio hyn at yr Awdurdod Gweithredol Diogelwch.

- [redacted] Bydd MD yn paratoi rhesymeg dros fuddsoddi rhagor yn y fflyd i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Mae setiau C4 Class 158 wedi'u sicrhau am 18 mis. Trafodwyd olwynion fflat ar gyfer setiau 231 gan nodi nad yw'n glir a oes setiau o olwynion newydd ar gael. Awgrymodd y Bwrdd y dylid adolygu cerbydau sbâr Class 756. **[Cam Gweithredu: MD i adrodd ar argaeledd setiau olwynion Class 231]**
- Mae'r gwaith o ddiweddaru meddalwedd trenau 398 yn mynd rhagddo'n dda, ond mae'r problemau â theledu cylch cyfyng yn parhau. Mae Stadler yn ymchwilio i atebion. [redacted] **[Cam Gweithredu: AC i anfon pwyntiau bwled at JP; JP a PS i ysgrifennu ac uwchgyfeirio at Stadler; JP i ffonio Stadler].**
- Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd y bydd y tîm gweithredol yn dod ynghyd cyn y storm nesaf i adolygu'r gwersi a ddysgwyd a rhoi cynlluniau parodrwydd ar waith.
- Trafododd y bwrdd lefelau canslo gwasanaethau, gan nodi y bydd ODSG yn darparu naratif chwarterol **[Cam Gweithredu: MD i ddatblygu naratif chwarterol yn esbonio'r perfformiad, y tueddiadau a'r heriau mewn perthynas â chanslo gwasanaethau]**. Wrth i Linellau Craidd y Cymoedd newid i fod yn rheilffordd cyfyngau amser, mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch y dull gweithredu cyn pen tri mis yn unol â'r ORR [Cam Gweithredu: MD i ddod yn ôl gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am fonitro gwasanaethau pellter hir a rheilffordd cyfyngau amser Llinellau Craidd y Cymoedd]. Trafodwyd rheoli cyfyngau a mesurau tracio'r DRS. Mae'r perfformiad presennol yn dangos gwasanaethau 1.1m yn yr ystod 90% isel, a thros 4m o dan 80%, gyda gwasanaethau pellter hir yn cael eu monitro ar wahân

.

**6.Marchnata**

Nododd y Bwrdd yr Adroddiad Marchnata.

**7.Diweddariad Masnachol**

Adolygodd y Bwrdd y perfformiad presennol, gan [redacted]

**8.Y Newyddion Diweddaraf am Gyllid**

Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.

Trafododd y bwrdd ddiffyg refeniw [redacted]

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

.

**9.Cynllun Lleihau Salwch**

Trafododd y Bwrdd lefelau salwch, [redacted]

[redacted] **[Cam Gweithredu: EE].** Bydd EE yn arwain y gwaith o greu'r strategaeth, gan gysylltu â mentrau diwylliannol, ac yn adrodd ar gynnydd i ODSG.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**